# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 5ed 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas, Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Maldwyn Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i roi cyflwyniad ynglŷn â'i gwaith yn yr ardal ac am yr apel recriwtio wardeniaid gwirfoddol. Diolchwyd iddynt a chytunwyd i ddosbarthu'r wybodaeth gyda'n cysylltiadau lleol.

**Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Nodwyd y buddiant ger y ceisiadau ariannol perthnasol.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**
<u>a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Coeden yn gwyro dros yr B4401, ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel - roedd coed wedi cael eu torri lawr yn ddiweddar ond dim y goeden benodol yma felly gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd.
ii) Tyllau yn yr B4401 rhwng cyffordd Bala a Llandderfel – roedd yr Archwiliwr Priffyrdd wedi asesu'r ffordd ond nid oedd y tyllau yn cyrraedd trothwy ymateb brys ar hyn o bryd.
iii) Ffosydd/gwteri angen eu glanhau rhwng Ysgol Ffridd y Llyn a phentref Llandderfel – roedd y gweithlu am lanhau'r gwteri a chynnal y ffosydd pan fyddai adnoddau ar gael.
iv) Cafwyd cadarnhad y byddai'r Cyngor yn sicrhau fod y ffordd i Ysgol Ffridd y Llyn yn cael ei raeanu pan fydd y peiriannau allan.

<u>b) Gwelliannau i'r mynwentydd.</u>
Cadarnhaodd y clerc fod y ffurflen adborth i Gronfa Fferm Wynt Clocaenog wedi cael ei anfon yn nol ac roedd yr hanes lleol wedi cael ei arddangos ar hysbysfyrddau newydd y mynwentydd. Mi fydd y dudalen newydd ar y wefan yn cael ei chwblhau yn fuan hefyd. Yn anffodus nid oedd wedi bod yn bosib trefnu i'r coed ym mynwent Frongoch cael eu torri cyn diwedd Mawrth a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn yr Hydref.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Rhaglen Waith Mis Chwefror yr Adran Briffyrdd.
ii) Cyfarfod Diweddaru Cynllun Ardal Ni – cytunodd Rita Jones a Bethan Thomas fynychu'r cyfarfod.
iii) Arolwg Gwynedd 2025.
iv) Ymgynghoriad cyhoeddus – rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau

<u>b) Heddlu Gogledd Cymru.</u>
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala – cytunodd Alwyn Jones i fynychu'r cyfarfod.
ii) Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

<u>c)Amrywiol.</u>
i) Mabon ap Gwynfor AS – diogelwch yr A494 – diweddariad.
ii) Siân Gwenllian AS (Arfon.) - sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor. Cytunwyd yn unfrydol i yrru gair o gefnogaeth.
iii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - arolwg o etholaethau'r Senedd.
iv) Comisiwn y Gyfraith - ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith Claddu ac Amlosgi.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..

v) Cyfoeth Naturiol Cymru – hysbysiad o'r gwaith cynaeafu yn y goedwig yng Nghelyn, ger y gronfa ddŵr.
vi) Cadno Communications – gwahoddiad i gwrdd ag arweinydd newydd y prosiect Fferm Wynt Foel Fach. Roedd Rita Jones, Bethan Thomas a Alwyn Jones wedi mynychu cyfarfod a chafwyd braslun ganddynt o'r hyn a drafodwyd.
vii) Uchelgais Gogledd Cymru – ymgynghoriad trafnidiaeth.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

C24/1032/04/LL – Gweithrediad dros dro o fast meteorolegol a strwythau ategol am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Tir ger LL237NR.
C24/1077/04/LL – Storfa tail sych arfaethedig. Coed y Foel Uchaf, Frongoch.
C24/1080/04/LL - Storfa tail sych arfaethedig. Mur-glas, Frongoch.
C24/1088/04/LL – Codi adeilad dros fuarth fferm bresennol. Bryn Golau, Maerdy.
NP5/63/7D - Adeiladu pwll slyri newydd. Defaidty, Cwmtirmynach.
C25/0069/04/LL - Codi estyniad unllawr newydd ar gefn yr eiddo a gwaith tirlunio. Pale Hall Hotel, Llandderfel,
C25/0068/04/CR - Codi estyniad unllawr ar gefn yr adeilad. Pale Hall Hotel, Llandderfel.
C25/0141/41/DT – Adeiladu estyniad unllawr i ochr ty. Crynierth Bach, Cefnddwysarn.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau uchod. Cytunwyd fod angen sicrhau fod unrhyw ddatblygiad ym Mhale yn cydymffurfio a rheolau gwarchod adeiladau rhestredig a ddim yn difetha cymeriad yr adeilad presennol.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth)
2) CTHEM (TWE)
3) Clerc (ad-daliad bin mynwent Llandderfel
4) Archwilio Cymru (archwiliad mewnol)
5) Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth)
6) Cwmni Pum Plwy Penllyn (cyfraniad tuag at gostau torrri llwybrau troed)
7) Neuadd Sarnau (Llogi)
8) Neuadd Mynach (Llogi)

Cymeradwyd hefyd i'r clerc dalu am y padiau i difib pentref Frongoch pan dderbynir yr anfoneb.


Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..

d) Ceisiadau ariannol
Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-
1) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)
2) Neuadd Sarnau - £450
3) Neuadd Llandderfel - £450 (Maldwyn Jones a Dewi Pritchard yn datgan buddiant).
4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
5) Ysgol Ffridd Y Llyn - £250
6) Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00
7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
8) Cylch Meithrin Garn Bach Frongoch - £100
9) Hosbis Tŷ Gobaith - £50
10) Hosbis Tŷ'r Eos - £50
11) CFFI Meirionnydd - £200
12) Cantref - £100
13) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
14) Ambiwlans Awyr Cymru -£100
15) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
16) Urdd Cylch Meirionnydd - £100
17) Theatr Derek Williams - £50
18) Macmillan - £50
19) Marie Curie Gwynedd - £50
20) Amgueddfa Frongoch - £100
21) Neuadd Bro Derfel – toiledau cyhoeddus - £50
22) Canolfan Henblas – Y Cyfnod - £50

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Problem baw cŵn ym mhentref Llanfor – cais i'r swyddog ymweld â'r pentref.
ii) Dŵr yn llifo ar wyneb yr B4401 ger Crogen.
iii) Eiddew yn tyfu ar y lloches bws Llanfor – cytunodd y clerc i atgoffa'r contractwr lleol fod angen ei glirio.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.


Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..